Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Chwefror 2022

Amser: 09.00 - 09.35

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Lesley Griffiths AS Darren Millar AS Siân Gwenllian AS
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Yan Thomas (Dirprwy Glerc)
Eraill yn bresennol	Jane Dodds AS David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Pwyllgor

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.35pm.

Dydd Mercher

Tynnodd y Llywydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y newid canlynol i fusnes dydd Mercher:

~~Dadl Fer - James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)~~ (Tynnwyd yn ôl)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.50pm.

Trafododd y Pwyllgor Busnes ailddechrau trafodion hybrid yn y Cyfarfod Llawn a'r trefniadau mewn perthynas ag egwyl ac ymyriadau. Gofynnodd y Llywydd i Reolwyr Busnes atgoffa eu Haelodau eu bod yn cael eu cynghori'n gryf i wisgo masgiau yn y Siambr ar wahân i pan maent yn siarad, ac i gymryd Profion Llif Unffordd cyn dod i ystâd y Senedd.

Gofynnodd y Llywydd hefyd i Reolwyr Busnes atgoffa eu Haelodau i gadw at derfynau amser o ran cyfraniadau yn y Cyfarfod Llawn.

3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y newidiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 8 Chwefror 2022 -

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Arloesedd mewn Ynni Adnewyddadwy (45 munud)~~ – caiff ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ansawdd Dŵr (45 munud)~~ – caiff ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig
- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Cap ar Brisiau Ynni (45 munud)

Dydd Mawrth 15 Chwefror 2022 -

- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) (Diwygio) 2022 (15 munud)
- Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022 (15 munud)
- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (15 munud)
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022 (15 munud)

3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 16 Chwefror 2022 -

- Dadl ar ddeiseb P-05-949 Arbed yr Ysgol Ganolradd i Ferched y Bont-faen (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (~~120~~ 60 munud)

Dydd Mercher 2 Mawrth 2022 -

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod: Alun Davies (Blaenau Gwent) - Effaith gorlifoedd stormydd (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

3.4 Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau - dethol cynnig i'w drafod

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r cynigion canlynol i'w trafod:

Dydd Mercher 9 Chwefror 2022:
NNDM7831 Mabon ap Gwynfor
Cynnig bod y Senedd:
1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar reolaethau rhent.
2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:
a) helpu i fynd i'r afael â rhai o effeithiau mwy difrifol
argyfwng tai Cymru, sy'n effeithio ar dros filiwn o bobl ledled y wlad;
b) lliniaru cynnydd sylweddol mewn rhent yn y dyfodol, fel y cynnydd a welwyd yn y sector rhentu dros y 12 mis diwethaf;
c) cyflwyno system sy'n cyfyngu ar renti a chynnydd mewn rhent i lefelau fforddiadwy a ffactorau lleol, gan gau'r bwlch rhwng twf cyflogau a chostau byw.

Dydd Mercher 2 Mawrth 2022:
NNDM7833 Alun Davies
Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i leihau effaith andwyol gorlifoedd stormydd.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) gosod dyletswydd ar ymgymerwr carthffosiaeth y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru i sicrhau gostyngiad cynyddol yn effaith andwyol gollyngiadau o orlifoedd stormydd yr ymgymerwr;

b) lleihau effeithiau andwyol gollyngiadau carthion ar yr amgylchedd ac ar iechyd y cyhoedd;

c) ei gwneud yn bosibl i'r ddyletswydd ar ymgymerwr carthffosiaeth gael ei gorfodi gan Weinidogion Cymru neu gan yr Awdurdod gyda chydsyniad awdurdodiad cyffredinol a roddir gan Weinidogion Cymru, neu'n unol â hynny.

Dydd Mercher 16 Mawrth 2022:

NNDM7896 Janet Finch-Saunders

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar gynllunio morol yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) gwneud darpariaethau ar gyfer polisïau a fyddai'n helpu i lywio lleoliad datblygiadau i ffwrdd o'r ardaloedd mwyaf sensitif o safbwynt ecolegol, lleihau'r effeithiau cronnol ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n agored i niwed, a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr;

b) creu dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hwyluso'r gwaith o greu cynllun datblygu morol cenedlaethol, a'i adolygu o leiaf unwaith ym mhob Senedd;

c) sefydlu meysydd adnoddau strategol ar gyfer ynni morol;

d) cyhoeddi strategaeth ar gyfer gwrthdroi dirywiad adar môr;

e) ei gwneud yn ofynnol i ffermydd gwynt ar y môr gynnwys adfer cynefinoedd gwely'r môr; strategaeth ar gyfer cynaeafu bwyd môr cynaliadwy o fewn ardal y fferm wynt a mesurau gwella amgylcheddol.

4 Deddfwriaeth

4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Iechyd a Gofal at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar fore 15 Chwefror 2022.

5 Pwyllgorau

5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar ddeiseb P-05-949 Achub Ysgol Ganolradd i Ferched y Bont-faen dydd Mercher 16 Chwefror 2022.

6 Amserlen y Pwyllgorau

6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

7 Busnes y Senedd

7.1 Craffu ar Aelodau Dynodedig

Datganodd Sian Gwenllian fuddiant fel Aelod Dynodedig.

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes yr opsiynau posibl ar gyfer hwyluso craffu ar waith Arweinydd Plaid Cymru ac Aelodau Dynodedig ar y Cytundeb Cydweithio ymhellach, yn dilyn ymgynghoriad y Rheolwyr Busnes â'u grwpiau.

Roedd grwpiau'r Ceidwadwyr a Phlaid Cymru o blaid cyflwyno mecanweithiau ar gyfer craffu ar waith Aelodau Dynodedig ac Arweinydd Plaid Cymru yn y Cyfarfod Llawn. Nid oedd y grŵp Llafur a'r Democrat Rhyddfrydol o blaid.

Felly, nid oedd mwyafrif o blaid cynnig unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor Busnes y mecanweithiau presennol y gellir eu defnyddio ar gyfer craffu ar waith Aelodau Dynodedig ac Arweinydd Plaid Cymru gan bwyllgorau'r Senedd.